# CYLCHLYTHYR

*Lleihau'r perygl o lifogydd yn Aberaeron gyda'n gilydd*

**Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron**

bam

**Rhif 4 Tachwedd 2024**

## Croeso

Dyma ein pedwerydd cylchlythyr ar gyfer Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron sy'n ceisio rhoi trosolwg o'r gwaith sydd ar ddod.

Os hoffech chi weld ein cylchlythyrau sganiwch:

**Saesneg:** **Cymraeg:**



*Adeiladu Morglawdd Pier y Gogledd*


Mae BAM yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion ac AtkinsRéalis Design Consultancy i gyflawni Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron.

## Rheoli traffig a cherddwyr

Gwybodaeth

Rydym yn gwneud pob ymdrech i gadw i'r lleiaf posibl ein heffaith ar drigolion ac ymwelwyr ag Aberaeron wrth i ni weithio ar yr amddiffynfeydd rhag llifogydd. Ond mae'n rhaid rheoli traffig a cherddwyr er mwyn i ni gael mannau gweithio diogel ac amddiffyn y cyhoedd. Mae'r ardaloedd sydd ar gau dros dro a restrir isod yn parhau yn eu lle:

- Gwyriad llwybr yr arfordir trwy Aberaeron
- Mynediad i Draeth y De
- Y bont droed bren i gerddwyr ar draws afon Aeron
- Mae cau'r ffordd dros dro ar hyd Pen Cei wedi cael ei ymestyn i 20 Rhagfyr 2024 er mwyn hwyluso'r gwaith o gwblhau'r gwaith draenio.



*Pen Cei*
*Sylfaen ffurfio ar gyfer y gwaith draenio newydd*



*Adeiladu rhodfa goncrit Morglawdd y Gogledd*


Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

bam

AtkinsRéalis

CONSIDERATE CONSTRUCTORS SCHEME

## Beth ydym ni wedi bod yn ei wneud?

- Cladin gwaith maen ar y seilbyst o fewn Y Seler. Caiff hyn ei gwblhau pan fydd y paneli gwydr yn cyrraedd o'r gwneuthurwr.
- Cladin gwaith maen yn Nheras Pwll Cam – cyn belled ag y gallwn ni fynd. Caiff hyn ei gwblhau pan fydd y paneli gwydr yn cyrraedd o'r gwneuthurwr.
- Adeiladu Morglawdd y Gogledd.
- Ailadeiladu wal gynnal gerrig Traeth y De a gosod y grwynau pren newydd.
- Adeiladu'r ategweithiau ar gyfer y gât harbwr mewnol newydd.
- Cloddio ac adeiladu sylfeini ar gyfer Pier y De newydd. Y craen cropian 160 tunnell wedi cyrraedd i gynorthwyo gyda gwaith adeiladu'r pen pier newydd.
- Adeiladu wal goncrid cyfnerthedig Pen Cei.
- Gosod y brif linell ddraenio ar hyd Pen Cei.

## Gwaith allweddol sydd ar ddod

### Tachwedd:

- Cladin gwaith maen ar waliau Pen Cei. Caiff hyn ei gwblhau pan fydd y paneli gwydr yn cyrraedd o'r gwneuthurwr.
- Parhau i osod y brif linell ddraenio ar hyd Pen Cei.
- Adeiladu troedffordd goncrid Morglawdd y Gogledd a pharhau i osod cerrig.
- Adeiladu'r ategweithiau ar gyfer y gât harbwr mewnol newydd a'r wal newydd ar gyfer yr Hive.
- Ailddechrau ailadeiladu wal yr afon o flaen Toad Hall.
- Adeiladu wal gynnal gerrig Traeth y De a gosod y grwynau pren newydd.
- Adeiladu sylfeini newydd Pier y De.

### Rhagfyr:

- Cwblhau'r brif linell ddraenio ar hyd Pen Cei.
- Gosod gatiau ar gyfer Pen Cei.
- Adeiladu troedffordd goncrid Morglawdd y Gogledd a pharhau i osod cerrig.
- Parhau i adeiladau'r ategweithiau ar gyfer y gât harbwr mewnol newydd a wal newydd yr Hive.
- Ailadeiladu'r wal afon o flaen Toad Hall.
- Ailadeiladu wal gynnal gerrig Traeth y De.
- Adeiladu pen pier newydd Pier y De.

### Ionawr:

- Gosod y paneli gwydr – rhan o afon Aeron a'r Hive.
- Gosod gatiau ar gyfer Pen Cei.
- Adeiladu troedffordd goncrid Morglawdd y Gogledd a pharhau i osod cerrig.
- Cladin gwaith maen ar gyfer ategweithiau y gât harbwr mewnol newydd a waliau'r Hive.
- Adeiladu wal deras a'r ciosg ar gyfer ategwaith dwyreiniol y gât newydd.
- Adeiladu wal yr afon o flaen Toad Hall.
- Ailadeiladu wal gynnal gerrig Traeth y De.
- Adeiladu'r pen pier newydd ar gyfer Pier y De.

## Buddion ac Ymgysylltu â'r Gymuned



### Coleg Ceredigion

Roedd Llysgenhadon STEM BAM wedi rhoi cyflwyniad diddorol ar y testun 'Gyrfaoedd yn y diwydiant adeiladu' i fyfyrwyr Lefel 1 sy'n astudio Gwaith Coed yng Ngholeg Ceredigion.  Nod y digwyddiad oedd ysbrydoli pobl ifanc i ystyried gyrfaoedd ym maes adeiladu yn y dyfodol a chafodd myfyrwyr fewnwelediad gwerthfawr i'r sector, ei lwybrau gyrfa a chyfleoedd yn y dyfodol.

## Buddion ac Ymgysylltu â'r Gymuned

### Ymweliad Safle Llywodraeth Cymru

Daeth y Dirprwy Brif Weinidog, Huw Irranca-Davies ynghyd â thîm Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru, i ymweld ag Aberaeron a gweld â'u llygaid eu hunain y cynllun amddiffyn yr arfordir newydd yn cael ei adeiladu. Roedd y Dirprwy Brif Weinidog wedi achub ar y cyfle i gwrdd â phrentisiaid lleol sydd wedi elwa ar y cynllun hwn.





### Cipolwg o'r adborth a gafwyd gan y gymuned leol

"Diolch yn fawr am eich ymweliad diweddar â Chlwb Forget Me Knot RAY ac am y cyflwyniad a'r diweddariad diddorol iawn. Rydym yn gwerthfawrogi eich bod yn cymryd yr amser i ddod i siarad â ni ac mae pawb yn y grŵp yn hoffi clywed y wybodaeth ddiweddaraf a sut mae'r prosiect yn mynd rhagddo."

Grŵp Forget Me Knot

"Roedd y seremoni arwyddo sgrôl yn llwyddiant mawr a diolch i'ch rhodd hael roeddem ni'n gallu cynnig llwncdestun i'r digwyddiad, rhywbeth a gafodd ei werthfawrogi'n fawr gan bawb oedd yn bresennol."

RNLI Aberaeron

"Ar ran y Dirprwy Brif Weinidog hoffwn i ddiolch i chi am drefnu ein hymweliad â chynllun Aberaeron a rhoi cyfle i ni siarad â rhai o'r gweithlu a'r prentisiaid lleol."

Tîm Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru

"Rwy'n ysgrifennu ar ran pawb yn Ysgol Gynradd Aberaeron i ddweud diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth hael a chlirio ein hen le chwarae. Diolch i'ch cymorth amserol, roeddem ni'n gallu gosod y lle chwarae newydd mewn pryd ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd newydd ac mae eisoes wedi dod â llawer o fwynhad i'n disgyblion.

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich ymrwymiad parhaus at gefnogi ein hysgol, a dyma'r math o bartneriaeth gymunedol sy'n ein helpu i barhau i ddarparu'r amgylchedd gorau posibl ar gyfer ein disgyblion. Mae'r lle chwarae newydd eisoes yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ac edrychwn ymlaen at weld yr effaith y bydd yn ei chael am flynyddoedd i ddod.

Unwaith eto, diolch i chi am eich cymorth. Rydym yn wirioneddol ddiolchgar am eich cyfraniad a'r berthynas gryf sydd gennym â BAM Nuttall."

Ysgol Gynradd Aberaeron

"Gair byr o ddiolch i BAM am ei gyfraniad at Glwb Pysgota Aberaeron."

Clwb Pysgota Aberaeron

## Buddion ac Ymgysylltu â'r Gymuned

Mae BAM wedi ymrwymo i gefnogi'r gymuned leol ac wedi noddi nifer o ddigwyddiadau a chlybiau chwaraeon lleol yn Aberaeron.

### Clwb Tennis Aberaeron

Roedd BAM wedi noddi Twrnamaint Tennis blynyddol Aberaeron 2024.




### Clwb Pêl-droed a Chriced Aberaeron

Rhoddodd BAM gyfraniad i Glwb Pêl-droed / Criced Aberaeron tuag at adnewyddu'r cyfleusterau newid.



### 'Aeronfest'

Rhoddodd BAM nawdd tuag at ŵyl gerdd gyntaf Aberaeron 'Aeronfest'.



### Cymdeithas Gelf Aberaeron

Roedd BAM wedi noddi arddangosfa gelf flynyddol amatur 'Cymdeithas Gelf Aberaeron Art Society' a gafodd ei chynnal yn festri Capel Tabernacl, Pwll Cam, Aberaeron.




### Grŵp 'Forget Me Knot' Ray Ceredigion

Roedd Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd BAM wedi cwrdd â'r grŵp 'Forget Me Knot' i roi trosolwg o'r prosiect Amddiffyn Arfordir Aberaeron. Roedd aelodau'r grŵp yn awyddus i ddysgu am y prosiect gan achub ar y cyfle i ofyn cwestiynau a rhoi sylw i unrhyw bryderon. Ymunodd Ben Lake, AS Ceredigion a'i gynorthwyydd â'r grŵp i ddysgu am y prosiect.





### Carnifal Aberaeron

Roedd BAM wedi noddi medal Carnifal Aberaeron 2024 sy'n codi arian hollbwysig ar gyfer mentrau lleol.



### RNLI Aberaeron

Roedd BAM wedi noddi digwyddiad arwyddo sgrôl i ddathlu pen-blwydd RNLI Aberaeron yn 200 oed.




*Lluniau gan Andrew Chittock*

### Clwb Rygbi Aberaeron

Rhoddodd BAM nawdd tuag at y digwyddiad blynyddol Rygbi 7 Bob Ochr Aberaeron.



## Buddion ac Ymgysylltu â'r Gymuned

Dyma gipolwg o'r bobl leol sydd wedi cael eu cyflogi gan BAM i weithio ar brosiect Amddiffyn Arfordir Aberaeron.



** Aaron Thomas*
*Peiriannydd*



*Andy Roberts*
*Gweithredydd Offer*



** Dai John Davies*
*Gweithiwr Peiriannau*



*Caleb Lewis-Price*
*Saer Coed*



*Nathan Bayliss*
*Rheolwr yr Iard*



** Emyr Benjamin*
*Gweithiwr Amlsgiliau*



*Dan Peters*
*Gweithiwr Cyffredinol*



*Gwen Clements - Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd*
*Michelle Lyons - Clerc Arfordirol*




*Emyr Thomas*
*Asiant Safle*



*Glyn Hayes*
*Gweithiwr Cyffredinol*



*Phil Round*
*Gweithiwr Peiriannau*



** Gwyn Howells*
*Gosodwr Dur*



** Gethin Thomas*
*Peiriannydd*




** Will Baxter*
*Gweithiwr Offer*

** Lluniau gan Andrew Chittock*



## Oriel Adeiladu



* Sylfaen goncrit cyfnerthedig mynedfa Harbwr Pwll Cam



Gosodiadau dur mynedfa Harbwr Pwll Cam cyn i'r concrit gyrraedd



Wal goncrit cyfnerthedig newydd Pen Cei



* Afon Aeron – rhoi cladin cerrig ar y wal gyfnerthedig newydd



Golwg drôn o'r gwaith draenio ar hyd Cadwgan Place



Gosod y grwynau pren newydd ar hyd Pier y De



* Rhodfa Pier y Gogledd – unedau wedi'u rhag-gastio yn cael eu gosod



* Gwaith ar forglawdd Pier y Gogledd

** Lluniau gan Andrew Chittock*

## EIN TÎM

**Rheolwr Contractau**
Ray Jones

**Rheolwr Prosiect**
Andrew Pointon-Bell

**Syrfëwr Meintiau**
Abby Davies

**Rheolwr Gwaith**
Keith Hughes

**Fforman Cyffredinol**
Damion Hopkins

**Asiant Safle**
Emyr Thomas

**Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd**
Gwen Clements

**Cynghorydd Amgylcheddol**
John Clancy

## EIN PARTNERIAID

**Cyngor Sir Ceredigion:**

**Rheolwr Prosiect**
Alan Haird

**AtkinsRéalis Design Consultancy:**

**Rheolwr Prosiect**
Steffan Davies

**Rheolwr Dylunio**
Matthew Tierney

## BAM ydym ni

Rydym yn dychmygu, yn creu ac yn cyfoethogi adeiladau a seilwaith ar draws y DU ac Iwerddon. Ers dros 150 o flynyddoedd, rydym wedi ymrwymo i wella bywydau trwy greu amgylcheddau a chymunedau cynaliadwy lle y gall pobl fyw, gweithio a ffynnu.

Ein gweledigaeth yw adeiladu dyfodol cynaliadwy. Dyna pam rydyn ni'n meddwl y tu hwnt i'r adeiladu ac yn canolbwyntio ar yr effaith fwy. Dyma sut rydym yn gwneud yr adeiladau a'r seilwaith eiconig sy'n llunio ein cymdeithas.

Yn ein hymgais diflino i wella, rydym yn gweithio ar y cyd â'n partneriaid i ddatgloi'r hyn sy'n bosibl, gyda'n gilydd. Mae hyn oherwydd ein bod yn credu mewn gweithredu, nid geiriau.

A dyna pam rydym ar genhadaeth i'w gwneud yn bosibl.

## Amgylchedd a chymuned

Trwy fabwysiadu agwedd gyfrifol a rhagweithiol at faterion amgylcheddol, mae BAM wedi ymrwymo i leihau effeithiau niweidiol posibl ei weithgareddau busnes ar yr amgylchedd a chyfrannu at ddatblygu cynaliadwy trwy gydbwyso ei amcanion busnes ac ystyriaethau amgylcheddol. Bydd BAM yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a gofynion eraill y mae'n ymrwymo iddynt, lle bo hynny'n bosibl, mewn perthynas â'i agweddau amgylcheddol a chynnwys cymunedau yn y prosiect.

## Adeiladwyr Ystyriol

Mae pob safle BAM yn cofrestru gyda'r Cynllun Adeiladwyr Ystyriol. Mae hyn yn golygu ein bod wedi ymrwymo i fod yn gymydog da ac i fod yn lân, yn barchus, yn ddiogel, yn ymwybodol o'r amgylchedd, yn gyfrifol ac yn atebol. Mae ein safle yn cael ei archwilio'n annibynnol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r nodau hyn.

Rydym yn ceisio gweithio mewn ffordd sy'n achosi cyn lleied o anghyfleustra â phosibl i'n cymdogion. Ymddiheurwn am unrhyw niwsans a allai gael ei achosi yn ystod y gwaith na ellir ei osgoi.

## Cysylltu â Ni

Ein bwriad yw cwblhau'r gwaith hwn heb fawr o amharu. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch â'n Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd sydd ar gael i helpu.

**Gwen Clements:**

**07585 633799**

**Aberaeron.plo@bam.com**

Gallwch gofrestru ar gyfer diweddariadau ebost trwy ebostio aberaeron.plo@bam.com a chadarnhau yr hoffech dderbyn diweddariadau a chopi o gylchlythyrau yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am BAM:

Sganiwch yma

